



Ysgol Bro Gwaun

Llawlyfr y

Corff Llywodraethol

2018-19

Llawlyfr Corff Llywodraethol Ysgol Bro Gwaun

2018-19



1. Rhagair

Croeso i gorff llywodraethwyr Ysgol Bro Gwaun. Rydych yn ymuno â dîm gweithgar a phrofiadol sydd yn gweithio i sicrhau ysgol llwyddiannus yn y gymuned. Ein nod fel corff yw i sicrhau cyfraniad cynhwysfawr gan bob un aelod er mwyn cefnogi gwelliant yr ysgol a nesau i'r weledigaeth. Mae gan bawb, beth bynnag yw eu profiadau llawer i gynnig i fywyd yr ysgol a gwaith y corff. Gobeithiwn os ydych yn newydd i'r profiad neu yn brofiadol iawn bydd y llawlyfr hwn o gymorth i chi yn y rôl. Yn wir mae'r llyfr hwn i bob aelod o'r corff pe baent yn newydd iawn, yn gymharol newydd neu yn brofiadol tu hwnt.

Fel llywodraethwr rydych wedi

- Dangos diddordeb yn addysg a lles disgyblion Ysgol Bro Gwaun
- Dangos awydd i ofyn cwestiynau.

Rydych wedi cytuno

I fynychu cyfarfodydd tymhorol y corff llawn ac i fod yn aelod o is bwyllgor I fod yn rhan gweithgar o dîm er gwelliant yr ysgol.

Mae llywodraethwyr yn arweinwyr strategol i ysgolion gyda rôl pwysig i wneud yn sicr bod pob disgybl yn cyrraedd eu gwir potensial.

Gobeithiaf y byddwch yn mwynhau'r profiad yma gyda ni yn Ysgol Bro Gwaun

Mrs Wendy Raymond
Cadeirydd y Corff Llywodraethol

2. Llywodraethwr ysgol yn Ysgol Bro Gwaun

Yn Ysgol Bro Gwaun, rydym yn gwerthfawrogi rôl y corff llywodraethol wrth gefnogi a herio agweddau o waith yr ysgol. I wneud hyn yn effeithiol, mae gan bob llywodraethwr ddealltwriaeth glir o'r rôl maent yn ei chwarae.

Llywodraethwr yw rhywun sy'n:

- wirfoddolwr gydag amser i ymrwymo i gyfarfodydd ac achlysuron eraill pan fo angen.
- dangos pryder am blant, eu lles a'u cynnydd academaidd.
- cynrychioli rhieni a'r gymuned ehangach, y staff a'r Awdurdod Leol. Yn barod i weithredu fel cyswllt rhwng y grwpiau hyn.
- fodlon derbyn cyfrifoldeb am bopeth mae'r ysgol yn ei wneud, ac yn gweithio fel rhan o dîm.
- barod i gefnogi'r ysgol, ond hefyd yn gofyn cwestiynau am sut mae'r ysgol yn gweithio a'r safonau mae'n ei gyflawni.

Yn Ysgol Bro Gwaun, mae ein corff llywodraethol yn cael ei greu o grŵp ymroddedig o unigolion, a phob un yn gwasanaethu cyfnod o 4 blynedd.

Ein Llywodraethwyr yw:

- Llywodraethwyr Rhieni
- Llywodraethwyr Athrawon
- Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol
- Llywodraethwyr Gymunedol
- Y Pennaeth
- Llywodraethwyr cyfetholedig/heb bleidleisio

Mae manylion y Llywodraethwyr sy'n rhan o'r Corff Llywodraethol ar hyn o bryd wedi'u nodi isod.

LLYWODRAETHWYR RHieni, CYFNOD A CHYFRIFOLDEBAU		
Swydd wag		
Ms Giancarla Cafolla	07.03.17 – 06.03.21	ADY Bagloriaeth y Gymreig Iechyd a Lles / Bugeiliol / Presenoldeb Cysylltiadau â rhieni CA5 – Coleg Sir Benfro
Mrs Emma Booth	16.02.18 – 15.02.22	
Mr Steve Maycock	25.05.16 – 24.05.20	Dyniaethau
Mr Ray Lerwill	17.10.16 – 16.10.20	Gwyddoniaeth / Technoleg TG / FfCD
Mr Gareth Williams	18.10.18 – 17.10.22	Mathemateg / Rhifedd

Etholir Llywodraethwyr Rhieni fel cynrychiolwyr rhieni sydd a disgyblion sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd, ac yn flaenllaw wrth fynegi pryderon a barn mwyafrif y rhieni.

LLYWODRAETHWYR ATHRAWON, CYFNOD A CHYFRIFOLDEBAU		
Mrs Virginia Currie	30.09.17 – 29.09.21	Pennaeth Technoleg
Miss Donna George	12.10.18 – 11.10.22	Pennaeth Ieithoedd

Etholir Llywodraethwyr Athrawon fel cynrychiolwyr o'r staff addysgu yn yr ysgol. Mae eu gwybodaeth broffesiynol o weithgareddau, cryfderau a gwendidau'r ysgol yn arbennig o ddefnyddiol wrth wella dealltwriaeth y Corff Llywodraethol o'i rôl a rhinweddau'r ysgol.

LLYWODRAETHWYR STAFF, CYFNOD A CHYFRIFOLDEBAU		
Mr Ross Harries	19.07.16 – 18.07.20	Data protection / GDPR

Etholir Llywodraethwyr Staff fel cynrychiolwyr staff cymorth nad ydynt yn addysgu yn yr ysgol. Maent hefyd yn dod â gwybodaeth broffesiynol o

weithgareddau, cryfderau a gwendidau'r ysgol i'r Corff Llywodraethol, gan wella eu ddealltwriaeth o'i rôl a rhinweddau'r ysgol.

LLYWODRAETHWYR YR AWDURDOD LEOL, CYFNOD A CHYFRIFOLDEBAU		
Cllr Bob Kilmister	19.01.17 – 18.01.21	Mathemateg / Rhifedd
Mrs Michelle Bateman	12.10.17 – 11.10.21	Gwyddoniaeth / Technoleg Cyfranogiad Disgyblion / Cysylltiadau Cymunedol
Mr Raymond Llewelin	03.01.16 – 02.01.20	Ieithoedd
Mrs Wendy Raymond	06.09.16 – 05.09.20	Cadeirydd ADY Saesneg / Llythrennedd Uwch-swyddogion 'Chwythu'r Chwiban' Hyfforddiant Llywodraethwyr
Mrs Patricia Morris	03.01.16 – 02.01.20	Saesneg / Llythrennedd 'Chwythu'r Chwiban' CA4 - Safonau / Perfformiad

Mae Llywodraethwyr yr Awdurdod Leol yn gweithio fel rhan o dîm y Corff Llywodraethol i hyrwyddo safonau uchel o gyflawniad addysgol ar gyfer pob plentyn. Maent yn cynrychioli Cyngor Sir Penfro, ond nid ydynt o reidrwydd wedi'u penodi ganddynt. Mae eu dealltwriaeth o farn wleidyddol y Cyngor a busnes y Cyngor yn sicrhau eu bod yn dod â chyfoeth o wybodaeth wrth drafod blaenoriaethau'r ysgol neu'n adlewyrchu effaith penderfyniadau ar y gymuned leol. Mae'r persbectif a wnânt yn dod ac yn ymwneud â sut mae'r ysgol yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth addysg ehangach, ac maen nhw'n chwarae rhan allweddol wrth gysylltu'r Corff Llywodraethu i wybodaeth am addysg ar lefel leol a chenedlaethol.

LLYWODRAETHWYR CYMUNEDOL, CYFNOD A CHYFRIFOLDEBAU		
Mr Martin Batty	12.12.14 – 11.12.18	Is-Gadeirydd y Llywodraethwyr. Hyfforddiant Llywodraethwyr. Ieithoedd. Uwch-swyddogion
Ms Alison Jenkins	02.11.16 – 01.11.20	Celfyddydau Mynegiannol Iechyd a Lles / Bugeiliol / Presenoldeb Cysylltiadau â rhieni 'Chwythu'r Chwiban'
Mr Geraint Evans	15.03.15 – 14.03.19	Celfyddydau Mynegiannol CA5 – Coleg Sir Benfro

Mr Peter Devonald	24.02.16 – 23.02.20	Celfyddydau Mynegiannol
Mr Matthew Jenkins		Cyfranogiad Disgyblion / Cysylltiadau Cymunedol

Gwahoddir Llywodraethwyr Cymunedol i ymuno gan Lywodraethwyr eraill a chaiff eu penodi gan y Corff Llywodraethol. Maent yn dod â'u profiad a'u sgiliau eu hunain i'r Corff Llywodraethol, ac maent yn gweithredu fel cyswllt pwysig â chymuned Ysgol Bro Gwaun.

SWYDDOGION GWASANAETHAU ERAILL / LLYWODRAETHWYR	
Mr Paul Edwards	Pennaeth

3. **Bod yn Lywodraethwr yn Ysgol Bro Gwaun**

Mr Geraint Evans –

Rwy'n falch o fod yn gysylltiedig ag Ysgol Bro Gwaun fel llywodraethwr cymunedol.

Dewisais anfon fy mhlentyn i Ysgol Bro Gwaun, er ei fod allan o'r dalgylch dynodedig. Fy rheswm dros wneud hyn oedd oherwydd darpariaeth o addysg cynhwysol, ddwyieithog ac ofalgar sy'n cael ei chyflwyno gan staff penodedig yr ysgol, a roddwyd y person ifanc wrth wraidd y broses ddysgu, gan ddatblygu hyder plant a sicrhau eu lles.

Bu'n ardderchog gweld buddsoddiad sylweddol yn yr ysgol gyda chyllid ysgolion yr Unfed ganrif ar hugain, ar yr un pryd yn darparu'r cyfleusterau cyfoes gorau posibl. Ond mae'n fwyaf gwerth chweil gweld bod yr ysgol yn cadw ei werthoedd cymunedol craidd, amgylchedd ddwyieithog naturiol, a ffocws sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

Ysgol yw hon sydd â'r plentyn yn ei chanol a'r gymuned yn ei chalon.

Ms Gian Cafolla –

Rwyf wedi bod yn Llywodraethwr ym Mro Gwaun ers 7 mlynedd. Mae 3 o fy mhlant wedi llwyddo i adael Bro Gwaun i fynd i'r Coleg a'r Brifysgol. Mae fy 3 mhlentyn hynaf a minnau'n Ddyslecsig. Nid yw hyn wedi bod yn rhwystr i gyrraedd unrhyw gymhwyster, o ystyried y gefnogaeth gywir.

Pam ydw i'n Llywodraethwr?

Ar ôl treulio fy ngyrfa broffesiynol yn delio ag oedolion trafferthus. Rwy'n gwbl argyhoeddedig mai blaenoriaeth y gymdeithas yw darparu'r cyfleoedd gorau i blant, yn enwedig addysg. Edrychwch ar y plentyn fel y gallant gyflawni eu potensial fel oedolion cyflawn.

Mae Bro Gwaun yn rhan gadarnhaol, rhagweithiol o'r daith honno. Rwy'n credu mewn Addysg sy'n Canolbwyntio ar Blentyn i Bawb! Rwy'n credu y bydd meithrin amgylchedd ddiogel yn lletya hynny.

Mae Ysgol Bro Gwaun yn ysgol sy'n meithrin gofal a diogelwch. Mae hefyd yn ysgol gynhwysol.

Fel Rhiant a Llywodraethwr, rwyf wedi gwneud yn fusnes i mi ymgysylltu'n llawn ag ethos yr ysgol. Yn gyfnewid, mae'r ysgol yn croesawu Llywodraethwr Rhiant sy'n cwestiynu ac yn chwilio am atebion.

Byddaf yn parhau i gefnogi, cwestiynu ac ymgysylltu â staff sy'n mynd y filltir ychwanegol yn rheolaidd, gan alluogi i bob un o'n plant gael y cyfle i gyflawni eu potensial ac i fod yn oedolion cyflawn.

4. Cefnogi proses hunan-arfarnu'r ysgol

Yn Ysgol Bro Gwaun, mae hunan-arfarniad yn cynnwys nifer o weithgareddau allweddol sydd, wrth eu cyfuno, yn darparu darlun manwl o'r safonau yn yr ysgol.

Mae'r cylch hunanarfarnu yn cynnwys:

- Arsylwadau gwersi, gan gynnwys teithiau dysgu
- Archwiliad llyfr
- Dadansoddi sgiliau
- Cyfleoedd llais disgybl

Mae llywodraethwyr yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi a herio'r ysgol yn ei phrosesau hunan arfarnu. Dangosir hyn yn y tabl.

	Proses
Medi	Canlyniadau perfformiad ysgol yn cael eu rhannu gyda phob llywodraethwr. Nodwyd llwyddiannau allweddol a meysydd i'w gwella.
Hydref	AGY a CDY yr ysgol wedi'u cwblhau a'u rhannu gyda'r holl lywodraethwyr. Nodwyd meysydd allweddol i'w datblygu ac y cytunwyd arnynt.
Tachwedd/Rhagfyr	Cylch hunan-arfarnu 1 <ul style="list-style-type: none">- Arsylwadau gwersi- Craffu ar lyfrau- Adolygiad sgiliau- Llais y disgybl LLYWODRAETHWR CYSWLLT I GYMRYD RÔL GEFNOGOL
Ionawr	Rhannu canlyniadau Hunanwerthuso Cylch 1 gyda llywodraethwyr cyswllt a'r pwyllgor cwricwlwm ac asesu. Nodwyd blaenoriaethau allweddol.
Mawrth/Ebrill	Cylch hunan-arfarnu 2 <ul style="list-style-type: none">- Arsylwadau gwersi- Craffu ar lyfrau- Adolygiad sgiliau- Llais y disgybl LLYWODRAETHWR CYSWLLT I GYMRYD RÔL GEFNOGOL

Mehedin	Rhannu canlyniadau Hunanwerthuso Cylch 2 gyda llywodraethwyr cyswllt a'r pwyllgor cwricwlwm ac asesu. Nodwyd blaenoriaethau allweddol.
---------	--

Mae'r wybodaeth a dderbyniwyd o'r prosesau hunan-arfarnu a ddisgrifir uchod yn bwydo mewn i brosesau hunan-adolygu adrannol, a bydd yn hysbusu at gynlluniau datblygu Adran ac ysgol gyfan. Bydd y dogfennau hyn yn cael eu huwch-lwytho gan arweinwyr canol ac uwch arweinwyr yn flynyddol, ac mae copïau yn cael eu rhannu gyda'r llywodraethwyr perthnasol.

5. Protocol ar gyfer Ymweliadau Dysgu ag Ystafelloedd Dosbarth a Sylweddiddion Dysgu

Mae prosesau Hunan-werthuso a monitro gwrsi'r ysgol yn cynnig cyfleoedd i lywodraethwyr weithredu fel sylweddiddion perthnasol. Wrth wneud hynny, gobeithir y bydd llywodraethwyr yn cael cipolwg ar y broses werthuso. Bydd hefyd yn rhoi cyfle i lywodraethwyr werthuso cadernid y broses mewn perthynas â'u maes cyfrifoldeb.

Dylid nodi na fydd yn ofynnol i lywodraethwyr, ar unrhyw adeg yn ystod yr ymweliad i wers lunio barn ar yr addysgu a'r dysgu o fewn y wers. Fodd bynnag, bydd y llywodraethwyr yn cwblhau adroddiad o'u harsylwadau a'u hargraffiadau o'r wers. Bydd hyn yn cael ei wneud ar ôl trafod gyda'r athro dosbarth.

Rhoddir manylion a phrotocolau isod:

- Dylid trefnu pob ymweliad ymlaen llaw rhwng y llywodraethwr cyswllt, yr athro/athrawes dosbarth, y pennaeth a/neu'r pennaeth adran.
- Yn ddelfrydol, dylid gwneud hyn mewn cyfarfod cyn yr ymweliad, gan y bydd hyn yn galluogi'r llywodraethwr a'r athro i drafod yr hyn y bydd y dosbarth yn ei wneud yn ystod yr ymweliad, ac unrhyw weithgareddau penodol hoffai'r llywodraethwr ganolbwyntio arnynt ee. Gwaith grŵp, gwahaniaethu.
- Ar ddiwrnod yr ymweliad, dylai'r llywodraethwr adrodd i'r pennaeth adran.
- Dylai'r athro gyflwyno'r llywodraethwr i'r dosbarth.
- Drwy gydol yr ymweliad, dylai'r llywodraethwr ymyrryd cyn lleied â phosibl ar waith y dosbarth. Fodd bynnag, mae disgyblion, yn enwedig y rhai iau, yn aml yn hoffi ac yn ymateb i sylw gan lywodraethwr, ac nid oes amheuaeth bydd y llywodraethwr yn cael mwy o wybodaeth am yr ysgol a'r hyn y mae'n ei wneud drwy siarad â disgyblion. O ganlyniad, ar adeg priodol a gyda chaniatâd yr athro/athrawes, gallai'r llywodraethwr siarad â disgyblion unigol am ei gwaith.
- Dylai llywodraethwyr fod yn ymwybodol bod rhai pynciau yn addas ar gyfer grŵp neu waith pâr, a bod rhai gweithgareddau'n cynnwys disgyblion yn symud o gwmpas yr ystafell. Ar adegau o'r fath, efallai bydd lefelau sŵn yn uwch nag arfer.

- Ar ddiwedd y wers, neu pan fyddant yn gweithio, dylai'r llywodraethwr ddiolch i'r athro a'r dosbarth am ei hymweliad.

Ar ôl yr ymweliad –

- Cyn gynted â phosib, ac yn ddelfrydol ar yr un diwrnod, efallai bydd y llywodraethwr a'r athro/athrawes dosbarth am drafod y wers, a chytuno ar adroddiad ysgrifenedig o'r gweithgareddau a welwyd yn y wers.
- Dylid rhannu'r adroddiad gyda'r athro a'r pennaeth adran.
- Rhestrir isod nifer o benawdau gallai adroddiad y llywodraethwr cyswllt gael ei ysgrifennu oddi tanynt. Nid yw'r rhestr yn holl-gynhwysol o bell ffordd, ond byddai'n cyfrannu i ryw raddau at ddelio â'r materion a godwyd yn y ddau bwynt blaenorol.
 - Dyddiad yr ymweliad
 - Enw'r athro/athrawes
 - Grŵp blwyddyn y dosbarth
 - Nifer o ddisgyblion yn y dosbarth a chydbwysedd rhwng y rhywiau
 - Pwnc neu ardal a astudiwyd
 - Adnoddau a ddefnyddiwyd
 - Beth ddigwyddodd yn y wers?
 - Yr argraff(au) mwyaf o'r ymweliad a wnaed arnaf
 - Arsylwadau eraill

Yn amlwg, y tri phwynt olaf yw'r pwysicaf i'r llywodraethwr cyswllt gael dealltwriaeth o'r hyn a welwyd. Dylai rhain ffurfio rhan helaeth o'r adroddiad.

Rhoddir copi gwag o'r Adroddiad Ymweliad Dysgu yn Atodiad 3.

Rhoddir copi enghreifftiol o'r Adroddiad Ymweliad Dysgu wedi'i gwblhau yn Atodiad 4.

- Dylid rhannu copi o'r adroddiad y cytunwyd arno â'r pennaeth. Bydd y pennaeth yn casglu'r holl adroddiadau, ac yn paratoi crynodeb o bwyntiau allweddol ar gyfer rhoi adborth i is-bwyllgor cwricwlwm ac asesu'r Corff Llywodraethol.

Diweddarwyd y ddogfen – Hydref 2018

ATODIAD 1 Byrfoddau a ddefnyddir mewn addysg

AgD	Asesu ar gyfer Dysgu
CCA	Cyd-gysylltydd Cefnogi'r Addysgu
AP	Amddiffyn Plant
DPP	Datblygiad Proffesiynol Parhaus
CAP	Cofrestr Amddiffyn Plant
SCT	Swyddfa Cofnodion Troseddol
CPPI	Cynllun Plant a Phobl ifanc
FfCD	Fframwaith Cymwysedd Digidol
CDA	Cynllun Datblygu'r Adran
SIY	Saesneg fel Iaith Ychwanegol
YTF	Ymddiriedolaeth Teulu Fischer
RhG	Rhyddid Gwybodaeth
PYD	Prydau Ysgol am Ddim
CLI	Corff Llywodraethol
TGAU	Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd
CACC	Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru
RhAG	Rhaglen Athrawon Graddedig
ID	Iechyd a Diogelwch
AU	Addysg Uwch
CALU	Cynorthwydd Addysgu Lefel Uwch
PA	Pennaeth Adran
PP	Pennaeth y Pwnc
AD	Adnoddau Dynol
CDU	Cynllun Datblygu Unigol
BmP	Buddsoddwyr mewn Pobl
HMS	Hyfforddiant Mewn Swydd
TGCh	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
HCA	Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon
CA3	Cyfnod Allweddol 3 - Blwyddyn 7, 8 a 9

CA4	Cyfnod Allweddol 4 – Blwyddyn 10 a 11
ALI	Awdurdod Lleol
PMG	Plant Mewn Gofal
AAI	Awdurdod Addysg Lleol
FfLlaRh	Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd
CCD	Cynorthwy-ydd Cymorth Dysgu
MAT	Mwy Abl a Thalentog
ITM	Iaith Tramor Modern
YCC	Y Cwricwlwm Cenedlaethol
DACH	Dim mewn Addysg, Cyflogaeth nac Hyfforddiant
CPCP	Cymwysterau Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawon
ANG	Athro Newydd Gymhwyso
UCA	Undeb Cenedlaethol Athrawon
CGC	Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol
AG	Addysg Gorfforol
TAOG	Tystysgrif Addysg Ôl Graddedig
CYBLD	Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol Lefel Disgyblion (hy. rhif ar y gofrestr ym mis Ionawr)
RhP	Rheoli Perfformiad
CPA	Cynllunio, Paratoi ac Asesu
UCD	Uned Cyfeirio Disgyblion
ABCh	Addysg Bersonol a Chymdeithasol
CCB	Cynllun Cefnogi Bugeiliol
CRhA	Cymdeithas Rhieni Athrawon (Ffrindiau Bro Gwaun)
SAC	Statws Athro Cymwysedig
AG	Addysg Grefyddol
GY	Gweithredu Ysgol
GY+	Gweithredu Ysgol +
CDY	Cynllun Datblygu Ysgol

AH	Adroddiad Hunanwerthuso
CGY	Cynllun Gwella Ysgolion
CLG	Cytundeb Lefel Gwasanaeth
UDRh	Uwch Dîm Rheoli
ADP	Anawsterau Dysgu Penodol
GC	Gwasanaethau Cymdeithasol
CA	Cynorthwydd Addysgu
RhDU	Rhif Disgybl Unigryw
CBC	Cymhwyster Bagloriaeth Cymru
TTI	Tîm Troseddwyr Ifanc
RhCB	Rheolwr Cynnydd Blwyddyn

ATODIAD 2**Ysgol Bro Gwaun****Maes Cyfrifoldeb gan gynnwys manylion cyswllt**

		Pwnc	Pennaeth Maes Dysgu	Llywodraethwr â chyfrifoldeb
1	Celfyddydau Mynegiannol	Celf Cerdd/Drama Addysg Gorfforol	Mrs Bethan Harkin	AJ GE PD
2	Dyniaethau	Hanes Daeryddiaeth Addysg Grefyddol	Mr Aled Williams (Cymraeg) Mrs Lucy Harris	SM EG
3	Mathemateg/Rhifedd	Rhifedd Mathemateg	Miss Rachel Harries Mrs Helen Roberts	GW BK
4	Saesneg/Llythrennedd	Llythrennedd Saesneg	Mrs Rachel Clark Mr Mark O'Connor	PM WR
5	Gwyddoniaeth/Technoleg	Technoleg Gwyddoniaeth	Mr Robert Woodman	RL MiB
6	Ieithoedd	Ffrangeg Cymraeg	Miss Donna George	MaB RLI
7	ADY		Miss Rhian Lewis	GC WR
8	Technoleg Gwybodaeth/ Fframwaith Cymwyseddau Digidol		Mr Declan Lynch	RL EG
9	Bagloriaeth y Gymraeg		Mrs Elizabeth Hooper	GC +1
10	Iechyd a Lles / Bugeiliol / Presenoldeb / Cysylltiadau â rhieni		Ms Emma Bowen Miss Alana Finn	AJ GC
11	Cyfranogiad disgyblion / Cysylltiadau Cymunedol		Ms Emma Bowen	MiB MJ
12	Diogelu Data / 'GDPR'		Mr Ross Harries	RH
13	Cysylltiadau â rhieni		Tîm Hŷn / Pennaeth Blwyddyn 11	Cadeirydd Is-Gadeirydd

14	'Chwythu'r Chwiban'			Cadeirydd PM AJ
15	Hyfforddiant Llywodraethwyr			Cadeirydd Is-Gadeirydd
16	CA3	Cwricwlwm Newydd i Gymru		EG
17	CA4	Safonau / Perfformiad	(Wendy Davies Adran?)	PM
18	CA5	Coleg Sir Benfro		Cadeirydd GE GC

Allwedd -

Llywodraethwr	
Mrs Wendy Raymond	WR
Mr Martin Batty	MaB
Mr Eifion Griffiths	EG
Ms Alison Jenkins	AJ
Mr Geraint Evans	GE
Mr Peter Devonald	PD
Mr Steve Maycock	SM
Mr Bob Kilmister	BK
Miss Patricia Morris	PM
Mr Ray Lerwill	RL
Mrs Michelle Bateman	MiB
Mr Raymond Llewelin	RLI
Ms Giancarla Cafolla	GC
Mr Matthew Jenkins	MJ
Mr Gareth Williams	GW
Mr Ross Harries	RH
Swydd wag – Rhiant	

**ATODIAD 3****YSGOL BRO GWAUN****Adroddiad Ymweliad Dysgu'r Llywodraethwr**

Enw'r Llywodraethwr:

Enw'r Athro/Athrawes:

Dyddiad yr ymweliad:

Grŵp Blwyddyn / Dosbarth:

Pwnc a thema:

Nifer o ddisgyblion:

Adnoddau:

Beth ddigwyddodd yn yr ymweliad?

Yr argraff fwyaf wnaeth yr ymweliad arnai i:

Sylwadau eraill:

Llofnod: _____ (Llywodraethwr) _____ (Athro)

Adroddiad Ymweliad Dysgu'r Llywodraethwr		
Enw'r Llywodraethwr: F.Y.HUN	Enw'r Athro/Athrawes: MR.BYDD.GWRANDO	Dyddiad yr ymweliad: 25.12.18
Grŵp Blwyddyn / Dosbarth: 8 Grŵp 2	Pwnc a thema: Saesneg - Cyfryngau	Nifer o ddisgyblion: 23
<p>Adnoddau:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Toriadau papur newydd - Amrywiaeth o bapurau newydd ee. 'Daily Mirror', 'Daily Mail', 'The Times' - 'i-pads' (a rennir rhwng grwpiau bach o ddisgyblion) - Defnyddiwyd clip 'You Tube' i ddisgrifio amryw o bapurau newydd 		
<p>Beth ddigwyddodd yn yr ymweliad?</p> <ul style="list-style-type: none"> - Rhannwyd y disgyblion yn grwpiau o ryw cymysg. Esboniodd yr athro diben y wers. Eglurodd ymhellach fod gan wahanol bapurau newydd gynulleidfaoedd targed gwahanol. Cafodd y syniadau hyn eu gwirio ymhellach gan y clip 'You-Tube'. Yna gofynnwyd i'r disgyblion astudio'r papurau newydd, a chwblhau ymarfer yn seiliedig ar dechnegau iaith. Roedd y disgyblion yn cylchdroi o gwmpas y grwpiau i ddysgu am wahanol arddull iaith a ddefnyddir gan bapurau newydd. 		
<p>Yr argraff fwyaf wnaeth yr ymweliad arna i:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Nid oeddwn yn ymwybodol o'r cychwyn bod y grwpiau wedi'u dewis yn ofalus ac yn cynnwys cymysgedd o alluoedd. Gweithiodd y disgyblion ym mhob un o'r grwpiau yn dda iawn, ynghyd â rhai a oedd wedi cael swyddogaethau penodol. Roedd lefel y brwdfrydedd yn drawiadol. Defnyddiodd rhai disgyblion yr 'i-pads' i gefnogi eu dealltwriaeth o'r dasg. Yn ystod y sesiwn adborth, roedd yn amlwg fod pob un o'r grwpiau wedi deall y dasg ac wedi cyflawni disgwyliad yr athro. 		
<p>Sylwadau eraill:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cefais argraff wych o ba mor dda y bu'r disgyblion yn gweithio yn eu grwpiau; roedd yn amlwg eu bod wedi cael y math hwn o brofiad o'r blaen. Daeth yn amlwg fod un o'r grwpiau yn grŵp 'MAT', ac roedd ganddynt dasg lefel uwch i'w gwblhau o'i gymharu â'r grwpiau eraill. Roedd sillafu yn dda yn gyffredinol, fodd bynnag, nid oedd rhai disgyblion yn gallu sillafu'r geiriau allweddol yn gywir. 		
<p>Llofnod: _____ (Llywodraethwr) _____ (Athro)</p>		

